Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Cynllunio Creu Coetir

## Y Gofrestr Cynlluniau Coetir

## Canllawiau Shapefile

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Canllawiau hyn yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae fersiwn Gymraeg o'r canllawiau hyn ar gael drwy fynd i https://www.llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir, newid yr iaith ar y botwm ar ben y dudalen ac ail agor y ddogfen.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'n gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

©Hawlfraint y Goron 2026 ISBN 978-1-83504-798-9

## Cynnwys

*Shapefiles* ar gyfer y Gofrestr Cynlluniau Coetir – Cyflwyniad ........ 4

Pa feddalwedd gallwch chi ei defnyddio i fapio Shapefile? ........ 5

Beth sydd wedi'i gynnwys yn y *Shapefile* ar gyfer y Gofrestr Cynlluniau Coetir? ........ 5

Mapio *Shapefile* y Gofrestr Cynlluniau Coetir ........ 6

Darlunio polygonau plannu *woodlandarea* ........ 6

Darlunio llinellau ffens *woodlandlinear* ........ 6

Ychwanegu Gatiau *woodlandPoint* ........ 7

Ychwanegu Pibellau Dŵr, Gatiau Dŵr, Cafnau Dŵr ........ 7

Arferion Mapio Da ........ 8

Ychwanegu haen wybodaeth at y Tablau Priodoleddau ........ 9

*woodlandArea* – Polygon Ardal Plannu ........ 9

*woodlandLinear* – Llinellau Ffensys a Phibellau Dŵr ........ 9

*woodlandPoint* – Gatiau / Gatiau Dŵr / Cafnau Dŵr ........ 10

Y Map Cyfleoedd Coetir – Haenau defnyddiol i'w defnyddio wrth fapio ........ 10

Arferion da ar gyfer lanlwytho *Shapefiles* ........ 11

Atodiad A – Gwallau Dilysu Shapefiles ........ 12

## *Shapefiles* ar gyfer y Gofrestr Cynlluniau Coetir – Cyflwyniad

Y Gofrestr Cynlluniau Coetir yw'r hyb canolog ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir, ac mae wedi'i chreu i symleiddio'r broses cynllunio coetir ar gyfer pob parti yn ystod y broses greu a dilysu.

- Bydd cynllunwyr yn lanlwytho'r *Shapefiles, Cynlluniau Creu Coetir a dogfennau ategol* i'r Gofrestr Cynlluniau Coetir.

- Bydd *Shapefiles* yn cael eu dilysu pan fyddant yn cael eu lanlwytho i wirio am wallau, gan roi adborth ar unwaith os oes angen gwneud cywiriadau.

- Gellir lanlwytho/disodli/diwygio *Shapefile* cynifer o weithiau ag sydd eu hangen, hyd at adeg cyflwyno'r cynllun, i sicrhau ei fod llawn ddilys ac yn cydymffurfio â holl reolau'r cynllun.

- Bydd y *Cynllun Gweithrediadau* yn deillio o'r tablau Priodoleddau *Shapefile* newydd a'r data geo-ofodol, ac yn cael ei ddangos ochr yn ochr â map trosolwg o'r *Shapefile* ar ôl iddo gael ei lanlwytho i'r Gofrestr Cynlluniau Coetir.

- Rhoddwyd cod byr i bob rhywogaeth coed i symleiddio’r broses o gwblhau tabl priodoleddau'r *Shapefile* o’r enw *woodlandArea*. Mae rhestr o'r codau rhywogaethau coed ar gael yn adran y Cynllun Cynllunio Creu Coetir ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd codau rhywogaethau coed yn cael eu dilysu pan fydd y *Shapefile* yn cael ei lanlwytho.

- Gellir ychwanegu opsiynau dŵr i *Shapefiles*, gan gynnwys Pibellau Dŵr (*woodlandLinear)*, Gatiau Dŵr (*woodlandPoint)* a Chafnau Dŵr *(woodlandPoint)*.

- Mae'r gallu i fapio gatiau bellach wedi cael ei ychwanegu ar y *Shapefile* ar ffurf haen siâp newydd o'r enw *woodlandPoint*.

- Am y bydd system y Gofrestr Cynlluniau Coetir bellach yn nodi arwynebeddau a hydoedd ar ffurf geo-ofodol wrth yn lanlwytho *Shapefile*, mae'r tablau priodoleddau wedi cael eu symleiddio er mwyn gofyn am gyn lleied o wybodaeth ag sydd ei hangen. Mae angen ID unigryw a Chod Opsiwn ar gyfer pob haen siâp, ac yn ogystal:

    - Bydd angen cofnodi cod rhywogaeth coed a chanran ar gyfer y siâp *woodlandArea* (hyd at 20).

    - Ar gyfer y siâp *woodlandLinear*, sy’n cael ei ddefnyddio i ddarlunio ffensys a phibellau dŵr, bydd angen ychwanegu *ParentUID* yr ardal blannu mae’r eitem wedi'i chysylltu â hi.

    - Ar gyfer y siâp *woodlandPoint*, sy’n cael ei ddefnyddio i ddarlunio gatiau a gatiau/cafnau dŵr, bydd angen ychwanegu *ParentUID* yr eitem mae wedi'i gysylltu â hi. Ar gyfer eitemau ffensio, bydd angen i’r *ParentUID* fod yn eitem ffensio, ond ar gyfer gatiau/cafnau dŵr, bydd angen i’r *ParentUID* fod yn ardal blannu.

**Sylwer: Cyn parhau, cymerir yn ganiataol eich bod wedi darllen y Gofrestr Cynlluniau Coetir – Canllawiau i Gynllunwyr gyntaf. Os nad ydych wedi gwneud hynny'n mae'n bosibl na fyddwch yn deall y cyfeiriadau yn y ddogfen hon. Mae'r Gofrestr Cynlluniau Coetir – Canllawiau i Gynllunwyr ar gael yma: [Y Gofrestr Cynlluniau Coetir | LLYW.CYMRU]**


## Pa feddalwedd gallwch chi ei defnyddio i fapio Shapefile?

Mae'r Gofrestr Cynlluniau Coetir yn gallu delio â Shapefiles sydd wedi'u golygu ar feddalwedd ESRI, fel ArcMap/ArcGIS neu'r feddalwedd ddi-dâl QGIS. Nid yw'r Gofrestr yn gallu cymryd Shapefiles sydd wedi'u golygu ar feddalwedd fel Landapp gan y bydd elfen GI y feddalwedd hon yn newid cyfansoddiad system ffeiliau'r Shapefile a data'r Tabl Priodoleddau.

## Beth sydd wedi'i gynnwys yn y *Shapefile* ar gyfer y Gofrestr Cynlluniau Coetir?

Mae'r *Shapefile .zip* ar gyfer y Gofrestr Cynlluniau Coetir yn cynnwys pedair haen – mae'r haen gyntaf yn cynnwys manylion ffiniau parseli tir y System Adnabod Parseli Tir (LPIS) a ddewiswyd yn y datganiad o ddiddordeb; mae'r ail haen yn dempled gwag i gynllunwyr fapio data polygon (ardal blannu); mae'r drydedd haen yn dempled gwag i gynllunwyr fapio data llinellol (ffensio, pibellau dŵr); ac mae'r pedwaredd haen yn dempled gwag i gynllunwyr fapio data eitemau pwynt (gatiau, gatiau/cafnau dŵr).

**Bydd cynnwys y ffeil *.zip* yn ymddangos fel a ganlyn:**



## Mapio *Shapefile* y Gofrestr Cynlluniau Coetir


Rhaid i ardaloedd plannu, ffensys a gatiau gael eu mapio **o fewn** ffiniau parseli tir yr LPIS a ddewiswyd ar Ddatganiad o Ddiddordeb y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. Gellir mapio pibellau dŵr a gatiau/cafnau dŵr y tu allan i ffiniau parseli tir yr LPIS a ddewiswyd os bydd angen – fodd bynnag, rhaid i'r cwsmer fod â rheolaeth lwyr ar y tir. Rhaid i bob polygon neu nodwedd linellol a fapiwyd fod yn *un rhan* yn unig, h.y. ni ddylech ychwanegu polygonau (nad ydynt yn gyffiniol) na nodweddion llinellol at yr un cofnod priodoleddau gan y bydd y rhain yn cael eu gwrthod gan y Gofrestr Cynlluniau Coetir.

Ar gyfer ffensys, gwnewch yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â'r nodiadau canllaw ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir, h.y. ni chewch leoli pwynt unrhyw ffens mwy na deg metr i ffwrdd o'r polygon plannu cysylltiedig, ac ni chaiff hyd y llinell ffensio fod yn hirach na pharamedr y polygon plannu cysylltiedig.

Sylwer: Dim ond ychwanegu at y siapiau Ardal, Llinellol a Phwynt y dylai cynllunwyr. **Peidiwch ag ychwanegu unrhyw haenau siâp ychwanegol**.


### Darlunio polygonau plannu *woodlandarea*

Efallai y byddwch yn dewis defnyddio teclyn snapio yn eich golygydd gwybodaeth ddaearyddol (GI); fodd bynnag rydym yn argymell mapio ychydig y tu mewn i'r ffiniau, gan adael llain glustogi fach i sicrhau nad oes unrhyw ran o'r polygon a fapiwyd yn mynd y tu allan i'r llinell LPIS. Mae chwyddo'r enghraifft hon yn dangos y llain glustogi rhwng y ffin LPIS a'r polygon plannu. Nid yw'r llain glustogi hon yn cael effaith ar fesuriad yr ardal.




### Darlunio llinellau ffens *woodlandlinear*

Yn debyg iawn i bolygonau ardal, mae darlunio eich llinellau ffens (llinell doredig binc yn yr enghraifft hon) ychydig y tu mewn i barsel yr LPIS yn rhoi lle ar gyfer unrhyw wall. Unwaith eto mae'r enghraifft hon wedi ei chwyddo'n sylweddol, felly dim ond gwahaniaeth bach iawn y bydd y llain glustogi hon yn ei wneud i'r mesuriad



## Ychwanegu Gatiau *woodlandPoint*


Rhaid ychwanegu pwyntiau gatiau yn agos at y llinell ffens mae'n gysylltiedig â hi. Byddwch mor gywir ag y bo modd wrth ychwanegu pwyntiau gatiau. Chwyddwch mewn i sicrhau bod y pwynt ar linell y ffens, gan fod goddefiant system ddilysu'r Gofrestr Cynlluniau Coetir yn fach.




## Ychwanegu Pibellau Dŵr, Gatiau Dŵr, Cafnau Dŵr


Caiff Pibellau Dŵr (*woodlandLinear*), Gatiau Dŵr (*woodlandPoint*) a Chafnau Dŵr (*woodlandPoint)* fynd ar draws ardaloedd plannu a nodweddion eraill wedi'u mapio.

Gellir defnyddio opsiynau dŵr i alluogi dŵr i gyrraedd ardaloedd nad ydynt ar gael i anifeiliaid pori achos bod da byw wedi'u cadw allan.



## Arferion Mapio Da

Yma gallwch weld enghraifft o arfer da a fydd yn pasio'r broses ddilysu – mae llain glustogi y naill ochr i ffin parsel tir yr LPIS a'r llall y gellir ei gweld wrth chwyddo i mewn:



## Ychwanegu haen wybodaeth at y Tablau Priodoleddau

Bydd angen ychwanegu priodoleddau ar gyfer pob polygon, nodwedd linellol neu bwynt yn ôl ei fath. Cyfrifoldeb y rhai sy'n creu'r cynllun yw sicrhau bod yr holl nodweddion a phriodoleddau'n cael eu cynnwys yn ofalus ac yn gywir. Bydd yr wybodaeth a gofnodir yn y Tablau Priodoleddau yn cael ei defnyddio i greu'r 'Cynllun Gweithrediadau Coetir', sydd bellach yn cael ei ddangos o fewn y Gofrestr Cynlluniau Coetir ar wahân i dempled y Cynllun Coetir.

### *woodlandArea* – Polygon Ardal Plannu

Ar gyfer pob ardal blannu a grëir, ychwanegwch ID Unigryw, Cod Opsiwn a'r codau rhywogaethau coed sydd eu hangen ynghyd â'r canrannau (dylai'r rhain wneud cyfanswm o 100% ar gyfer pob llinell yn y tabl priodoleddau).

| Enw'r maes yn y *Shapefile* | Disgrifiad | Enghraifft o'r fformat sydd ei angen |
|---|---|---|
| **UID** | *ID unigryw rydych chi wedi'i ddyrannu – rhaid i hwn fod yn unigryw ar draws y siapiau woodlandArea, woodlandLinear a woodlandPoint* | 1 |
| **COD** | *Math o Opsiwn, e.e. P003 Carbon* | P003 |
| **SPECIES_1 – SPECIES_20** | *Cod rhywogaethau coed – hyd at 20 rhes* | ASP |
| **PERCENT_1 – PERCENT_20** | *Canran yr ardal ar gyfer pob Rhywogaeth Coed – hyd at 20 rhes. Sylwer bod rhaid i werth y canrannau mewn un rhes wneud cyfanswm o 100%* | 100 |

Enghraifft:

| | UID | CODE | SPECIES_1 | PERCENT_1 | SPECIES_2 | PERCENT_2 | SPECIES_3 | PERCENT_3 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 1 | P003 | IAR | 50 | AH | 30 | RSQ | 20 |
| 2 | 2 | P003 | IAR | 50 | AH | 30 | BPO | 20 |
| 3 | 3 | P002 | ASP | 50 | AH | 30 | BPO | 20 |

### *woodlandLinear* – Llinellau Ffensys a Phibellau Dŵr

Ar gyfer pob eitem ffens neu bibell ddŵr a grëir, ychwanegwch ID Unigryw, Cod Opsiwn ac ID Unigryw rhiant y polygon cysylltiedig o'r haen *WoodlandArea* ar gyfer pob eitem. RHAID gosod ID Unigryw (UID) rhiant y polygon cysylltiedig ar gyfer pob llinell.

| Enw'r Maes yn y Shapefile | Disgrifiad | Enghraifft o'r fformat sydd ei angen |
|---|---|---|
| **UID** | *ID Unigryw rydych chi wedi'i ddyrannu – rhaid i hwn fod yn unigryw ar draws y siapiau woodlandArea, woodlandLinear a woodlandPoint* | 1 |
| **COD** | *Math o opsiwn, e.e. P595 Ffensys neu P563 Pibellau Dŵr* | P595 / P563 |
| **UID RHIANT** | *Rhaid i bob llinell gael ei chysylltu ag ardal blannu – rhowch UID yr ardal blannu mae'r ffens wedi'i chysylltu â hi* | 2 |

Enghraifft – Mae Eitem Ffens UID 3 â'r cod P595 wedi'i chysylltu ag Ardal Blannu UID 1. Mae Eitem Pibell Ddŵr UID 5 hefyd wedi'i chysylltu ag Ardal Blannu UID 1:

| | UID | CODE | PARENT_UID |
|---|---|---|---|
| 1 | 3 | P595 | 1 |
| 2 | 5 | P563 | 1 |

***woodlandPoint* – Gatiau / Gatiau Dŵr / Cafnau Dŵr**

Ar gyfer pob eitem bwynt a grëir, ychwanegwch ID Unigryw, Cod Opsiwn a'r ID Unigryw rhiant cysylltiedig. Rhaid gosod ID Unigryw (UID) rhiant ar gyfer pob eitem bwynt.

| Enw'r Maes yn y Shapefile | Disgrifiad | Enghraifft o'r fformat sydd ei angen |
|---|---|---|
| **UID** | *ID Unigryw rydych chi wedi'i ddyrannu – rhaid i hwn fod yn unigryw ar draws y siapiau woodlandArea, woodlandLinear a woodlandPoint* | 1 |
| **COD** | *Math o Opsiwn, e.e. P590 Gât Safonol neu P574 Cafn Dŵr* | P590 / P574 |
| **UID RHIANT** | *Rhaid i bob eitem bwynt gael ei chysylltu ag eitem riant – rhowch UID yr eitem riant mae'r eitem wedi'i chysylltu â hi (ar gyfer Gatiau rhaid i'r eitem riant fod yn eitem ffens, ac ar gyfer Gatiau / Cafnau Dŵr rhaid i'r eitem riant fod yn eitem Blannu)* | 2 |

Enghraifft – Mae Cafn Dŵr UID 6 â'r cod P574 yn gysylltiedig ag Eitem Blannu UID 2, ac mae Gât UID 7 â'r cod P590 yn gysylltiedig ag Eitem Ffens 4:

| | UID | CODE | PARENT_UID |
|---|---|---|---|
| 1 | 6 | P574 | 2 |
| 2 | 7 | P590 | 4 |

**Nodyn pwysig:** Ni ddylech addasu'r rhesi/colofnau o fewn y tablau priodoleddau. Mae hyn yn cynnwys dileu rhesi rhywogaethau/canrannau neu ailenwi colofnau. Mae gwneud hyn yn golygu na fydd y *Shapefile* a gyflwynwyd yn cael ei ddilysu.

## Y Map Cyfleoedd Coetir – Haenau defnyddiol i'w defnyddio wrth fapio

Mae porwr mapiau gwe Map cyfleoedd Coetir Llywodraeth Cymru, sydd ar GeoBorthol Llywodraeth Cymru, sef MapDataCymru, yn syllwr ar-lein sy'n rhoi canllaw cyffredinol i berchnogion tir. Ei fwriad yw nodi'r ardaloedd yng Nghymru sydd fwyaf addas ar gyfer creu coetir newydd. Mae'r map hefyd yn cynnwys gwybodaeth i ddangos ardaloedd a all fod yn sensitif i greu coetir newydd, ac yn cyfeirio at ganllawiau pellach ynghylch ymgynghori â'r awdurdod priodol. Mae'r map yn berthnasol i **bob** cynnig mewn perthynas â chreu coetir ni waeth a yw'n cael ei ariannu'n gyhoeddus neu'n breifat, ac mae'n cael ei ddefnyddio i asesu ceisiadau o dan gynlluniau plannu Llywodraeth Cymru. Y nod yw sicrhau bod y coed cywir yn cael eu plannu yn y lle cywir i sicrhau y manteision gorau posibl.

I helpu Cynllunwyr Coetir i baratoi cynlluniau coetir, mae'r holl wybodaeth am gyfyngiadau ac ardaloedd sensitif sy'n gysylltiedig â'r ardal blannu a ddewiswyd ar gael i'w lawrlwytho o'r Map Cyfleoedd Coetir.

Mae canllaw cyflawn i ddefnyddwyr wedi cael ei lunio er mwyn eich cyflwyno i'r Map Cyfleoedd Coetir wedi'i ddiweddaru, ac mae'n dangos sut mae'n gweithio i ategu penderfyniadau mewn perthynas â chynllunio plannu coetir newydd yng Nghymru. Mae'r ddolen ar gael yn gov.wales/woodland-opportunity-map-user-guide

## **Arferion da ar gyfer lanlwytho *Shapefiles***

Gellir lanlwytho *Shapefile* i'r Gofrestr Cynlluniau Coetir newydd cynifer o weithiau ag sydd eu hangen er mwyn lanlwytho *Shapefile* dilys ar gyfer cynllun. Gyda hyn mewn golwg, cewch lanlwytho *Shapefile* yn ystod unrhyw gam o'r broses fapio – gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol os oes gennych lawer o fapio i'w wneud. Bydd hyn yn eich galluogi i wirio am unrhyw wallau posibl yn y mapio wrth ichi fynd yn eich blaen, yn hytrach na chwblhau llawer o fapio a'i lanlwytho, dim ond i weld gwallau a allai fod yn gymhleth eu cywiro.

Cofiwch nad oes angen *cyflwyno'r* Cynllun i'w ddilysu nes eich bod yn fodlon bod y *Shapefile* a lanlwythwyd a rhannau eraill o'r cynllun yn gyflawn. Ar yr adeg hon y bydd y Cynllun yn dod yn ddarllen yn unig, felly, unwaith eto, cyn yr adeg hon cewch ychwanegu/dileu a disodli pob rhan o'r Cynllun cynifer o weithiau ag sydd eu hangen yn eich tyb chi.

## Atodiad A – Gwallau Dilysu Shapefiles

Mae hon yn rhestr gynhwysfawr o'r gwallau y gallech ddod o hyd iddynt wrth lanlwytho *Shapefile*.


<u>Rhaid cywiro gwallau yn eich meddalwedd GI ac ail-lanlwytho *Shapefile* wedi'i gywiro. Ni ellir cywiro gwallau *Shapefile* o fewn y Gofrestr Cynlluniau Coetir.</u>

Noder y defnyddir meddalwedd **QGIS** ar gyfer y sgrin luniau yn yr enghreifftiau dilynol.

<table>
<tr><th>Negeseuon Gwall</th><th>Esboniad</th></tr>
<tr><td>Nid yw'r ffeil zip yn cynnwys y ffeil(iau) ganlynol: <<i>fileList</i>></td><td>Rhaid i bob <i>Shapefile .zip a</i> lanlwythir gynnwys y mathau canlynol o ffeiliau o leiaf ar gyfer pob un o'r prif haenau siâp:<br><br><i>woodlandarea_*</i><br><i>woodlandlinear_*</i><br><i>woodlandpoint_*</i><br><br><i>.dbf</i><br><i>.shp</i><br><i>.shx</i><br><i>.prj</i><br><i>.cpg</i></td></tr>
<tr><td>Nid yw'r ffeil(iau) PRJ ganlynol yn cyd-fynd â'r fformat yn y ffeil zip a lanlwythwyd: <<i>fileList</i>></td><td>Rhaid i'r tafluniad fod yr un fath â'r <i>Shapefile</i> a lanlwythwyd – <i>OSGB36 / Grid Cenedlaethol Prydain EPSG:27700</i></td></tr>
<tr><td>Nid yw'r Shapefile yn cynnwys unrhyw ardaloedd plannu.</td><td>Ni chanfuwyd unrhyw ardaloedd plannu yn y siâp woodlandArea. Gwnewch yn siŵr bod eich polygonau plannu a'r data yn eich tabl priodoleddau wedi cael eu cadw'n gywir.</td></tr>
<tr><td>Nid yw'r cod <<i>code</i>> yn ddilys ar gyfer ardal blannu</td><td>Nid yw'r Cod Opsiwn a ddyrannwyd yn y tabl priodoleddau ar gyfer eitem blannu yn y siâp <i>woodlandarea</i> yn god derbyniol. Dyma'r codau derbyniol:<br><br>
<table>
<tr><th>Cod</th><th>Enw'r Opsiwn</th></tr>
<tr><td>P002</td><td>Bioamrywiaeth (1600)</td></tr>
<tr><td>P003</td><td>Carbon</td></tr>
<tr><td>P004</td><td>Coetir Cymysg</td></tr>
<tr><td>P005</td><td>Bioamrywiaeth (1100)</td></tr>
<tr><td>P006</td><td>Amaeth-goedwigaeth yr Ucheldir</td></tr>
<tr><td>P007</td><td>Amaeth-goedwigaeth yr Iseldir</td></tr>
<tr><td>P008</td><td>Cymysgedd – Ffrwythau a Chnau</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>Nid yw'r cod <<i>code</i>> yn ddilys ar gyfer eitem ffens</td><td>Nid yw'r Cod Opsiwn a ddyrannwyd yn y tabl priodoleddau ar gyfer eitem ffens yn y siâp <i>woodlandlinear</i> yn god derbyniol. Dyma'r codau derbyniol:<br><br>
<table>
<tr><th>Cod</th><th>Enw'r Opsiwn</th></tr>
<tr><td>P595</td><td>Ffens Postyn a Weiren</td></tr>
<tr><td>P518</td><td>Ffensio Rhag Ceirw</td></tr>
</table></td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Negeseuon Gwall</th><th>Esboniad</th></tr>
<tr><td>Nid yw'r cod <<i>code</i>> yn ddilys ar gyfer eitem gât</td><td>Nid yw'r Cod Opsiwn a ddyrannwyd yn y tabl priodoleddau ar gyfer eitem gât yn y siâp <i>woodlandpoint</i> yn god derbyniol. Dyma'r codau derbyniol:<br><br>
<table>
<tr><th>Cod</th><th>Enw'r Opsiwn</th></tr>
<tr><td>P590</td><td>Gât Safonol (Metel)</td></tr>
<tr><td>P599</td><td>Gât Safonol (Pren Caled)</td></tr>
<tr><td>P600</td><td>Gât Safonol (Pren Meddal)</td></tr>
<tr><td>P516</td><td>Gât Ceffyl o Bren</td></tr>
<tr><td>P517</td><td>Gât Mochyn o Bren</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>Nid yw'r cod <<i>code</i>> rhywogaethau coed yn ddilys</td><td>Nid yw cod rhywogaethau coed a ychwanegwyd at y tabl priodoleddau ar gyfer eitem blannu yn y rhestr o godau rhywogaethau coed dilys. Gwiriwch a chywirwch y cod rhywogaethau anghywir.<br><br>Mae rhestr lawn o godau Rhywogaethau Coed ar gael yn https://www.llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir</td></tr>
<tr><td>Ni ellir diffinio cod <<i>code</i>> rhywogaethau coed mwy nag unwaith o fewn ardal blannu.</td><td>Mae cod rhywogaethau coed wedi cael ei ddefnyddio mwy nag unwaith ar gyfer eitem blannu y cyfeiriwyd ati. Gwiriwch a dileu un o'r codau.</td></tr>
<tr><td>Rhaid i'r ganran ar gyfer cod <<i>code</i>> <i>rhywogaethau coed</i> fod yn fwy na sero.</td><td>Ni roddwyd canrannau rhywogaethau coed ar gyfer yr eitem blannu. Gwiriwch ac ychwanegwch Ganran(nau) Rhywogaethau Coed fel sy'n briodol.</td></tr>
<tr><td>Rhaid i'r cymysgedd rhywogaethau coed ar gyfer ardal blannu wneud cyfanswm o 100%.</td><td>Ar gyfer pob eitem yn y tabl priodoleddau woodlandarea, rhaid i'r ganran ar gyfer pob rhywogaeth coed wneud cyfanswm o 100%.</td></tr>
<tr><td>Nid oes gan yr eitem hon gyfeirnod ddilys.</td><td>Mae angen gosod ID Unigryw (UID) yn y tabl priodoleddau ar gyfer pob eitem a ddarluniwyd (ardal blannu, llinell ffens neu gât). Mae angen i'r UID fod yn rhif.</td></tr>
<tr><td>Nid yw cyfeirnod yr eitem hon yn unigryw o fewn y cynllun hwn</td><td>Rhaid dyrannu ID Unigryw (UID) i bob eitem a ddarluniwyd (ardaloedd plannu, ffensys a gatiau) y mae’n rhaid iddo fod yn unigryw ar draws y siapiau woodlandarea, woodlandlinear a woodlandpoint. Er enghraifft, os oes gan eitem ffens ac ardal blannu, neu eitem gât ac eitem ffens yr un yn UID, dangosir bod y rheol hon wedi cael ei thorri.</td></tr>
</table>

| Negeseuon Gwall | Esboniad |
|---|---|
| Dylai <*Code*> yr eitem gael ei gysylltu ag ardal blannu. | Ar gyfer pob ffens, pibell ddŵr neu gât/cafn dŵr a ddarluniwyd rhaid ychwanegu UID ardal blannu gysylltiedig at golofn yr UID RHIANT o fewn y tabl priodoleddau perthnasol.<br><br>Nodwch fod y gwall hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd os ydych yn ceisio cysylltu Ffens ag eitem blannu Amaeth-goedwigaeth (nid yw eitemau Amaeth-goedwigaeth yn gymwys ar gyfer ffensys). |
| Dylai <*Code*> yr eitem gael ei gysylltu â ffens. | Ar gyfer pob gât a ychwanegir mae angen ychwanegu UID eitem ffens at golofn yr UID RHIANT o fewn y tabl priodoleddau *woodlandpoint*. |
| Mae'r gât yn rhy bell o'r ffensio cysylltiedig. | Rhaid i bwyntiau gatiau gael eu gosod â goddefiant o 10m o'r llinell ffensio gysylltiedig. |
| Mae'r gât yn rhy agos i gât arall | Ni chewch osod gât yn nes nag 1m o gât arall |
| Mae'r ffens yn rhy bell o'r ardal blannu | Ni chaiff unrhyw ran o linell y ffens fod yn fwy na 10 m o'r ardal blannu gysylltiedig. |
| Gorgyffwrdd ag <UNIQUE_IDs>. Dilëwch unrhyw orgyffwrdd. | Mae'r system wedi canfod bod ardal blannu yn gorgyffwrdd ag ardal blannu arall, bod eitem ffens yn gorgyffwrdd ag eitem ffens arall neu fod gât yn gorgyffwrdd â gât arall. Defnyddiwch eich meddalwedd GI i nodi'r gorgyffwrdd ac addasu'r nodau yn ôl yr angen. Mae'n bosibl y bydd angen ichi chwyddo mewn i ddod o hyd i'r gorgyffwrdd. |
| <*UNIQUE_ID*> - Mae holl geometreg yr eitem hon, neu ran ohoni, y tu allan i ffiniau eich cynllun y cytunwyd arnynt. | Mae ffiniau'r cynllun y cytunwyd arnynt yn cwmpasu'r yr holl barseli tir a ddilyswyd yn ystod y cam datgan diddordeb. Mae'r ffiniau hyn yn cael eu dangos yn y haen siâp LPIS yn y Shapefile. Ni chaniateir mapio y tu allan i'r ffiniau hyn, felly mae angen ichi ddefnyddio eich meddalwedd GI i leoli'r ardal(oedd) / llinell(au) ffens sydd y tu allan i'r ffiniau a'u haddasu yn ôl y gofyn. |
| <*UNIQUE_ID*> (polygon) – Ni chaiff cyfanswm y ffensio sy'n gysylltiedig â pholygon plannu fod yn hirach na pherimedr y polygon | Un o ofynion rheolau'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yw, er nad oes rhaid i leoliad y ffensio adlewyrchu paramedr y polygon plannu, ni chaiff fod yn hirach na pherimedr y polygon plannu mae'n gysylltiedig ag ef. |

<table>
<tr><th>Negeseuon Gwall</th><th>Esboniad</th></tr>
<tr><td><UNIQUE_ID> - Mae geometreg yr eitem hon yn torri ar ei thraws ei hun.<br><br>Mae'r Geometreg ar yr eitemau canlynol yn annilys: <UNIQUE_ID></td><td>Mae’r gwallau hyn fel arfer yn golygu bod y system wedi canfod nodau polygon neu bolylin (a elwir hefyd yn fertigau) wedi’u gosod ar ben ei gilydd, neu fod man plannu wedi’i dynnu neu linell ffens yn ‘croestorri’ ei hun. Mae'r olaf yn golygu bod yr eitem a lunnir wedi croesi drosto'i hun wrth gael ei mapio. I ddatrys y mater hwn, defnyddiwch eich meddalwedd GI i chwyddo i mewn i nodi lle mae'r eitem wedi croesi ei hun. Yn yr enghraifft isod mae'r polygon i'w weld yn normal pan nad yw wedi cael ei chwyddo, ond wrth edrych yn agosach gallwch weld lle mae'r nod wedi croesi ei hun:<br><br>
<br><br>Nodwch fod defnyddio offeryn snapio i ddarlunio polygonau neu linellau ffens yn peri risg sylweddol o osod nodau ar ben ei gilydd.</td></tr>
</table>

| Negeseuon Gwall | Esboniad |
| --- | --- |
| Nid oes gan yr eitemau canlynol unrhyw geometregau cysylltiedig: <*UNIQUE_IDs*> | Gall hyn ddigwydd pan fydd holl nodau polygon plannu neu eitem ffens yn cael eu dileu â llaw heb ddileu'r rhes gysylltiedig yn y tabl priodoleddau.<br><br>Fel arfer, os ydych am ddileu eitem plannu neu ffens, mae'n well dileu'r rhes o'r tabl priodoleddau. Bydd gwneud hyn yn cael gwared ar unrhyw geometreg gysylltiedig a ddarluniwyd. |
| I fod yn gymwys ar gyfer cymorth mae angen plannu arwynebedd o 0.25 hectar o leiaf. | Wrth i'r *Shapefile* gael ei lanlwytho, mae'r system wedi canfod bod llai na'r 0.25 hectar o arwynebedd plannu sy'n ofynnol wedi cael ei fapio. Nid yw cynlluniau â llai na 0.25 hectar o arwynebedd plannu yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. |
| Yr arwynebedd lleiaf o blannu newydd sydd ei angen i fod yn gymwys ar gyfer cymorth yw 0.01 hectar. | Wrth i'r *Shapefile* gael ei lanlwytho, mae'r system wedi canfod bod ardal blannu a ddarluniwyd yn llai na'r arwynebedd gofynnol lleiaf o 0.01 hectar ar gyfer ardal blannu unigol. Nid yw ardaloedd sy'n llai na 0.01 hectar yn gymwys ar gyfer y Cynllun Cynllunio Creu Coetir. |
| I fod yn gymwys ar gyfer cymorth yr arwynebedd lleiaf o Amaeth-goedwigaeth newydd mae angen ei blannu yw 0.50 hectar. | Os ydych yn dewis ychwanegu eitem(au) Amaeth-goedwigaeth at eich cynllun, rhaid bod o leiaf 0.50 hectar o Amaeth-goedwigaeth o fewn y *shapefile*. |